funded by communities first cymunedau yn gyntaf

LLAIS OLDFORD

Oldford Voice

Awst/Medi 2009

Cynllun Gwarchod Cymdogaeth—Ymunwch â ni!

Mae aelodau'r Cynllun Gwarchod Cymdogaeth yn cydweithio gyda'r heddlu i leihau troseddu ac i gynyddu diogelwch cymunedol. Mae'r Cynllun hefyd yn ymwneud â dod â phobl yn agosach, a'u cynnwys mewn bywyd lleol.

Mae'n gweithio drwy:

- Ddod â phobl yn agosach at ei gilydd
- Meithrin ysbryd cymunedol cryfach
- Helpu lleihau troseddu
- Lleihau pryderon pobl ynghylch troseddu
- Atgyfnerthu cysylltiadau gyda'r heddlu
- Meithrin cysylltiadau agosach gyda chynghorau lleol
- Gwella'r amgylchedd lleol
- Creu bywyd o ansawdd gwell

Fodd bynnag mae pob Cynllun Gwarchod Cymdogaeth yn wahanol, gan ei fod yn dibynnu ar yr ardal, ac ar ddyheadau ac anghenion y bobl sy'n byw yno.

Cychwyn

A fyddai gennych chi ddiddordeb mewn cychwyn neu ymuno â Chynllun Gwarchod Cymdogaeth yn eich stryd chi?
Gall grwpiau fod yn rhai bach neu fawr, ac ar Ystâd Oldford mae nifer o strydoedd, ffyrdd pencaead, a fflatiau fyddai'n gallu sefydlu eu grŵp eu hunain.

Bydd angen cael hyd i dri o bobl sy'n fodlon ymgymryd â'r gwaith canlynol:

- Cydlynydd
- Ysgrifennydd
- Trysorydd.

Gall y rolau hyn fod mor syml ag enw ar dudalen er mwyn i chi gael cychwyn. Fel arfer y Cydlynydd yw'r pwynt cyswllt ar gyfer aelodau'r grŵp ac ar gyfer yr heddlu fydd am hysbysu a diweddaru'r grŵp efallai ynghylch materion lleol. Nid yw trigolion bob tro efallai'n teimlo'n gyfforddus gyda'r syniad o fod yn rhan o gynllun fel hyn neu o gysylltu â'r heddlu. Mae gan Gynllun Gwarchod Cymdogaeth Cudd aelodau nad ydynt yn hysbys i'r heddlu ac nad ydynt yn arddangos sticeri yn eu ffenestri. Gyda Chynlluniau Cudd, y cydlynydd yw'r unig un sy'n cael cysylltiad gyda'r heddlu.

Y Cam Cyntaf…

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymaelodi neu mewn cychwyn grŵp yn eich stryd chi, cysylltwch naill ai â: Swyddfa Cymunedau yn Gyntaf Oldford ar 556648 neu'r Tîm Plismona Bro ar 0845 330 2000 neu dewch draw i'r cyfarfod nesaf ar Ddiogelwch Cymunedol ar 2 Medi, am 11.30 yb yn Nhŷ Emerald, Ysgol Babanod Oldford.

communities first cymunedau yn gyntaf

Yn y rhifyn hwn:

Gwarchod cymdogaeth	*1*
Gweithgareddau Haf	*2*
Arwyddbost	*3*
Y Get Going Gang	*4*
Junior Rangers	*5*
Diwrnod o Hwyl Agored	*6*

If you would like a large print or Welsh language version of this newsletter, please contact the Communities First Office on 556648

Os hoffech dderbyn copi o'r cylchlythyr hwn mewn print bras neu yn Gymraeg, cysylltwch â Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf ar 556648

LLAIS OLDFORD

Tim Plismona Bro Y Trallwng • Welshpool Town NPT

Gweithgareddau Haf
Summer Activities



Am Ddim
Free

22ain Gorffennaf **22nd July, 2009**	Rownderi - Rounders
29ain Gorffennaf **29th July, 2009** **&** **5ed Awst 2009** **5th August 2009**	Gwersi Dawnsio Stryd Street Dancing Lessons
12fed Awst 2009 **12th August 2009** **&** **19eg Awst, 2009** **19th August, 2009**	Celf a Chrefft Arts and Crafts
26ain Awst 2009 **26th August 2009**	Rownderi - Rounders

6pm-8pm
Maes Ysgol **Maesydre** School Field

Am ddim i rai 8 oed +

Ffoniwch 01938 556648 am fanylion

Heddlu•Police DYFED-POWYS

communities first cymunedau yn gy

Diwrnod Tacluso Oldford

6ed Mehefin oedd dyddiad Diwrnod Tacluso cyntaf Oldford yn 2009. Roedd yn llwyddiant mawr ac aeth **dros dunnell o eitemau nad oedd eu heisiau bellach** i'r sgip, ac ailgylchwyd llawer o bethau eraill.

Hoffem ddiolch i'r holl wirfoddolwyr am eu cymorth ar y diwrnod, Cynllun Phoenix, Cyngor Sir Powys, CTO a Chynllun Cadw Cymru'n Daclus

Facebook

Rydym bellach yn rhan o'r chwyldro rhwydweithiau cymdeithasol! Wyddoch chi fod gan Gymunedau yn Gyntaf Oldford grŵp ar Facebook?

Eisoes mae gyda ni nifer cynyddol o ffrindiau sydd naill ai'n byw neu yn gweithio ar Oldford. Mae hwn yn lle gwych i gael sgwrs gyda ffrindiau neu i gysylltu â ni am gyngor, neu i roi awgrymiadau inni.

Squirrels

Parent & Toddler Group

Dydd Mawrth ac Iau

9.00 – 11.00 yb
Neuadd Ysgol Babanod Oldford
£1.00 yr wythnos!

Grŵp cyfeillgar a chymdeithasol yw Squirrels ar gyfer darpar-famau, rhieni, gofalwyr, babanod a phlant bach sy'n cynnig:

- **Lluniaeth a man bwyta byrbrydau**
- **Teganau i blant bach**
- **Crefftau a gweithgareddau**
- **Deunyddiau lliwio a darllen**

Croeso i aelodau newydd, does dim archebu lle, ymlaen llaw—dewch draw!
Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 556648

Cynllun Gweithredu Cymunedol
Y diweddaraf…

Mae pob un o'r isgrwpiau wedi bod yn cwrdd i drafod a gweithio ar wella cymuned Oldford. Os hoffech ymuno ag unrhyw un o'r grwpiau isod, croeso i chi gysylltu â ni:

Amgylcheddol

Diogelwch Cymunedol

Addysg a Hyfforddiant

Pobl Ifanc

Cymuned Weithgar

Bydd y grŵp cymuned weithgar yn cwrdd i drafod gweithgareddau fyddai o fudd i gymuned Oldford. Mae'n bwysig iawn i gael aelodau o'r gymuned hon ar y grŵp yma i gael dweud eu dweud ar yr hyn sy'n digwydd!

communities first cymunedau yn gyntaf

Housing Debt Helpline Wales

0800 107 1340

Llinell Gymorth Dyledion Tai Cymru

ARWYDDBOST

Mae'r prosiect ieuenctid Arwyddbost yn cynnig gwasanaeth cyngor, cymorth a gwybodaeth gyfrinachol ar ddefnyddio cyffuriau ac alcohol i bobl ifanc.

Wyt ti rhwng 11—19 oed, ac yn poeni am faterion yn ymwneud â chyffuriau ac alcohol, neu wyt ti'n adnabod rhywun sy'n defnyddio, a buaset ti'n hoffi cael mwy o gyngor…

Cysylltwch â ni ar : 01686 610422

Holiday Club

Dydd Llun 20 Gorff - Dydd Mawrth 2 Medi
8.30 yb - 5.30 yp
Plant 4 - 10 mlwydd oed
Canolfan Teuluol Drws Agored, Howell Drive

Wythnos 1 - Diwrnod picnic, rangers iau, mae 'na dalent yng nghanolfan drws agored, nofio a diwrnod o hwyl i gynnwys gemau a chystadlaethau!

Wythnos 2 - Parti traeth, nofio, coginio, celf a chrefft, diwrnod picnic a diwrnod mabolgampau!

Wythnos 3 - Coginio, mosäig, nofio ac ymweld â gwarchodfa natur, rangers iau!

Wythnos 4 - Gwneud gemwaith, nofio, diwrnod picnic, celf a chrefft, coginio ac ymweld â Chastell Powis.

Wythnos 5 - Celf a chrefft, coginio, trip ar y gamlas, nofio, ymweld â'r llyfrgell a diwrnod picnic!

Wythnos 6 - Celf a chrefft, nofio, diwrnod mwytho, diwrnod o hwyl a choginio!

£10.00 y plentyn, brodyr a chwiorydd £9.00

Dewch â bocs brechdanau

Am fwy o wybodaeth neu i archebu lle cysylltwch â Rhian Roberts ar **01938 556238**

Oasis

Cyfle i fwynhau cawl cartref a rôl, a chwmni da!
Croeso i bawb!
Dydd Mercher 26ain Awst, 30ain Medi
Ysgol Babanod Oldford, Pris swper fydd £1.00
Bydd Oasis yn rhedeg nos Fercher olaf bob mis. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01938 552781

Darganfod Pwll Fferm Hafren 'Gwerddon Drefol'

Mae Pwll Fferm Hafren yn werddon fach 1.3ha o faint lle mae planhigion, adar ac anifeiliaid yn gallu byw yn ddiogel, er eu bod yng nghanol pobl ac ystâd ddiwydiannol brysur. Mae llawer o rywogaethau gwahanol wedi ymgartrefu yma, gan gynnwys adar bridio megis y cwtiar, yr iâr ddŵr, yr hwyaden wyllt, y gwyach fach a bras y cyrs.
Trwy ddilyn y llwybrau bordiau o gwmpas y warchodfa, cewch ddilyn taith hynod ddiddorol.

Mae man dysgu arbennig ar gael hefyd i'r ysgolion lleol a'r gymuned.
Os hoffech ddysgu mwy am Bwll Fferm Hafren beth am ddod i'r Diwrnod agored ar 27 Awst! Am fwy o fanylion ffoniwch 01938 555654

Y Côd Cefn Gwlad

Mae Ystâd Oldford yng nghanol cefn gwlad Cymru, felly mae'n rhaid inni gyd fod yn ymwybodol o'r Côd Cefn Gwlad pan fyddwn allan yn mwynhau ein hamgylchfyd. Cofiwch:

- Gau gatiau ar eich ôl
- Cadw cŵn dan reolaeth
- Dilyn y llwybrau
- Defnyddio gatiau a chamfeydd
- Gadael llonydd i blanhigion
- Mynd â sbwriel adre gyda chi
- Bod yn ofalus gyda thanau
- Bod yn ofalus ar ffyrdd Cefn Gwlad

Wyddoch chi mai 'Wythnos gwybod eich rhifau' yw'r wythnos 7 - 13 Medi
Mae'r wythnos hon yn hyrwyddo pwysigrwydd gwirio pwysedd eich gwaed!

Am wybodaeth ynghylch mwy o wythnosau sydd ag achos penodedig ym Mhrydain ewch at :
www.countmeincalendar.info

LLAIS OLDFORD



Total cost £4.88

Items from your store cupboard:
garlic, olive oil, chicken stock cube, dried mixed herbs, salt and pepper

2 x 500g packs Freedom Food endorsed chicken drumsticks† £2.24

1 red onion 22p

330g cherry tomatoes 99p

1 lemon 30p

1 courgette 38p

500g cous cous 75p

- Serves 4
- Preheat oven to 200°C/Gas 6
- Put Chicken in large roasting tray with 1 red onion cut into wedges, 1 sliced garlic clove, and a pinch of mixed herbs. Drizzle with oil and mix.
- Cook in the oven for 35 minutes. Add cherry tomatoes, whole and cook for another 10 minutes.
- Make 1 pint of chicken stock with 1 stock cube. Mix cous cous with stock in a bowl and leave for 5 minutes. Meanwhile fry diced courgette in pan. Fluff up cous cous with fork and grate in lemon zest. Add courgette and drizzle with olive oil.
- Squeeze juice of 1 lemon over chicken and serve with cous cous on the side.

Cynllun cydweithredol Potty Potato

Archebwch eich bagiau o ffrwythau a llysiau o'r cynllun cydweithredol.
Bag llawn—dim ond £3
Hanner bag—dim ond £2
Hanner dwsin o wyau maes—75c
Dwsin o wyau maes—£1.50

Byddwch yn Greadigol gyda phecyn Crefft!
Deunyddiau crefft ffynci ar werth am brisiau isel iawn! Ffoniwch Liz ar 555269

Byddwn ar agor yn ystod y gwyliau yn Ysgol Babanod Oldford.

Y GET GOING GANG

Cynllun Chwarae Gwyliau Haf



21 Gorff - Gwener 21 Awst
10yb - 3yp
Caban Sgowtiaid Y Trallwng
Oedran—4 - 15
£2.50 y plentyn y dydd.

Wythnos 1 - Celf a Chrefft!
Wythnos 2 - Hwyl gyda bwyd!
Wythnos 3 - Creu cerddoriaeth!
Wythnos 4 - Chwaraeon!
Wythnos 5 - Hwyl ailgylchu!
Hefyd: profiad sinema, hwyl yng Nghastell Powis a Drymio Affricanaidd!

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Liz ar 555269

Dyddiad cau rhifyn nesaf Llais Oldford yw:
Dydd Llun 14 Medi 2009

Os hoffech rannu eich newyddion neu stori gydag Oldford
ffoniwch ni ar 556648

Undeb Credyd Sir Drefaldwyn
Robert Owen
Montgomeryshire Credit Union

Cofiwch gysylltu â ni ynghylch benthyciadau llog-isel i bopeth o filiau i wyliau!

Ffoniwch ni ar: 01686 623741
Neu ewch i'n gwefan:
www.romcul.co.uk

Cyhoeddiadau...

Dymuna Hazel Evans ddiolch i bawb am eu cymorth yn dilyn ei damwain sgwter, yn enwedig yr holl blant.

Ar goll…

Mae blwch gwyn i blan-higion wedi diflannu o ardd 20 Oldford Close.

Roedd y blwch yn siâp llew gwyn oedd yn arbennig i'w berchen-nog, sy'n gofyn am gael ei ddychwelyd os gwelwch yn dda

Ffoniwch 556648

Llongyfarchiadau

I Carl Gannon ar basio ei gwrs ac arholiad Achub Bywydau. Cariad oddi wrth Mam, Dad, ei 4 chwaer, y nithoedd a'r neiaint.



RANGERS IAU!

Sesiynau dros wyliau'r haf yn Llyn Coed Y Dinas i ddarganfod y bywyd gwyllt anhygoel sy'n byw yno a mynd yn nes at natur!

Bob dydd Mawrth 10 - 12, o 28 Gorff hyd at 25 Awst. Cyflwynir bathodynnau a thystysgrifau Ranger.

Yn addas i blant o bob oed, yn enwedig rhai 7 - 11 oed.

Cost - £1.50. Mae'n rhaid i bob plentyn fod yng nghwmni oedolyn.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â MWT ar 01938 555654 neu galwch heibio'r swyddfa, Tŷ Collot, 20 Stryd Hafren, Y Trallwng.

Cyrsiau Rhan-amser mis Medi 2009

Lleoliad: Tŷ Emerald,

Ysgol Oldford

TG i Ddechreuwyr

17 Medi - 12 Tachwedd - 1yp - 3yp - £28.20

17 Medi - 12 Tachwedd - 3yp - 5yp - £28.20

19 Tachwedd - 21 Ionawr - 1yp - 3yp - £28.50

19 Tachwedd - 21 Ionawr - 3yp - 5yp - £28.50

Gwehyddu Rygiau Carpiau

14 Medi - 12 Hydref - 7yp- 9yp -£21.50

Gweu a Chrosio i Ddechreuwyr

14 Medi - 12 Hydref - 1yp - 3yp -£21.50

Hyfforddiant Bywyd i Ddechreuwyr

14 Medi - 14th Rhag - 9.45yb - 11.15yb - £28.20

Am fwy o wybodaeth neu i drefnu lle ar gwrs, ffoniwch 0845 4086 200

Yma cyn bo hir….

Cyfle cyffrous i ddysgu sgiliau newydd a chwrdd â ffrindiau newydd!

Dyma'ch cyfle i ymuno â nifer o gyrsiau diddorol ac amrywiol o Bartïon Plant i Goginio i Ddynion!

Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth, neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau, ffoniwch ni ar 556648

TRIPIAU DYDD

Gŵyl Caerdydd neu San Ffagan

Dydd Sadwrn 8 Awst £18 / £12

Traeth a Marchnad Y Bermo

Dydd Iau 13 Awst £11.50 / £8

Southport neu'r Sioe Flodau

Dydd Sadwrn 22 Awst £12 / £8

Drayton Manor Park

Dydd Mercher 26 Awst £32 / £26

Alton Towers

Dydd Sadwrn 29 Awst £35 / 27

Blackpool Beano (Meh—Medi)

Dydd Sadwrn cyntaf bob mis £14 / £9

Caer / Sŵ / Cheshire Oaks

Dydd Sadwrn 12 Medi £12 / £8

Taith i'r Lake District

Dydd Sadwrn 19 Medi £19 / £12

Sioe Hydref Malvern

Dydd Sadwrn 26 Medi £28 / £22.50

LLAIS OLDFORD

Diwrnod Hwyl Y Trallwng 2009

Dydd Sadwrn 26 Medi 10.30yb ~ 4.30yp
Caeau Ysgol Maesydre

Mynediad a gweithgareddau am ddim, gan gynnwys:

* Cwrs Bynji
* Cwrs Her y Fyddin
* X-Treme Trampolîn
* Arddangosfa Hebogyddiaeth Canolbarth Cymru
* Arddangosfa o wasanaethau 999
* Bws Chwarae'r Jyngl Joli
* Gweithdai
* Gladiatoriaid Gwynt

Fel arfer, ni fyddai'n bosib trefnu digwyddiad fel hyn heb gymorth gwirfoddolwyr. Os hoffech wirfoddoli ymlaen llaw neu ar y diwrnod, cysylltwch â ni ar 556648.

Sioe Gŵn Hwyl

Pris cystadlu 50c yr adran:
Cynffon mwyaf sigledig
Mwyaf ufudd
Coesau mwyaf tebyg i'r perchennog
Ci mwyaf golygus
Yr ast ddelaf
Yr hen gi gorau (dros 8 oed)
Y ci bach mwyaf dymunol
Y cyflymaf i fwyta dantaith
Y plentyn gorau yn trin ci
Y ci byddai'r beirniad yn hoffi mynd adref gydag ef/hi

Yn Niwrnod Hwyl
Y Trallwng
26 Medi



Paws 'n' Claws

Dog Walking & Pet Sitting Services

07927 032648

Fully Insured, Friendly and Reliable

Call us today!

Peace of Mind for Pets and Property

Cyswllt Rhieni - Hydref 09
Dydd Iau 10yb - 12yp
Yn Eglwys Fethodistaidd Y Trallwng

3 Medi - Croeso nôl ac Ymlacio
10 Medi - Cwrs Achrededig TG Coleg Powys
17 Medi - Cwrs TG (Sesiwn 2)
24 Medi - Cwrs TG (Sesiwn 3)

Croeso i chi ddod ac aros, a chwarae os nad yw'r cwrs sydd ar gael yn addas i chi!

Am fwy o wybodaeth
Cysylltwch â ni ar
01686 624859

POWYS Children & Young Peoples Partnership Partneriaeth Plant A Phobl Ifanc

action for children™

Diwrnod Hwyl Agored

Dydd Iau 27 Awst
Gwarchodfa Natur Pwll Fferm Hafren

Gwesteiwyr: plant a phobl ifanc Prosiect Action Camp.

Dewch i ddarganfod, mwynhau a dysgu gofalu am fywyd gwyllt!

Bydd posteri a mwy o wybodaeth ar gael cyn bo hir…
Ffoniwch 01938 556648

Gweiddwch…..
Os oes gennych unrhyw straeon, newyddion neu ddigwyddiadau hoffech eu rhannu gydag Oldford, cofiwch fod Llais Oldford yn cyrraedd 418 o gartrefi!

Cysylltwch â ni ar
Ffôn: 01938 556648
Ebost: ocf@powys.gov.uk
Cliciwch:
www.commfirstpowys.org.uk
Sgwrs: Grŵp Cymunedau yn Gyntaf Oldford ar Facebook!